



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim

Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim yng
Nghymru o ganlyniad i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol

Dyddiad cyhoeddi: 6 Mehefin 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 14 Medi 2018

Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru o ganlyniad i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, yn benodol cymhwysedd yn seiliedig ar dderbyn y Credyd Cynhwysol.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **14 Medi 2018** fan hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:
Cangen Lles Disgyblion
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:

YmgynghoriadPrydauYsgolamDdim@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD, CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyflwyniad	4
Beth yw'r prif ystyriaethau?	5
Meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru	5
Y Credyd Cynhwysol	6
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yng Nghymru	6
Cinio ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd	7
Pam mae angen i ni ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim?	9
Ein cynigion	11
Cyflwyno trothwy incwm blynyddol net a enillir o £7,400	11
Amddiffyniad trosiannol i deuluoedd y mae'r newid yn effeithio arnynt	13
Cymorth ariannol i reoli effaith y trothwy ac amddiffyniad trosiannol	15
Rheoli'r effaith ar ddangosyddion amddifadedd	15
Effaith ar gydraddoldeb	15

Rhagair y Gweinidog

Mae parhad y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol ledled Cymru'n golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddiweddarau'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Ar hyn o bryd, gall plentyn neu berson ifanc sy'n mynychu'r ysgol yn llawn amser fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw ei rieni neu ofalwyr yn derbyn un o nifer o fudd-daliadau neu daliadau cymorth. Mae rhai o'r budd-daliadau hyn yn cael eu disodli gan y Credyd Cynhwysol.

Mae'r Credyd Cynhwysol wedi bod yn faen prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ers i'r Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013 ddod i rym ar 6 Medi 2013. Fe'i gwnaed yn glir o'r cychwyn bod hyn wedi'i wneud fel mesur dros dro, i sicrhau na fyddai teuluoedd, a fyddai fel arall wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd y budd-daliadau etifeddol¹ yr oeddent yn eu derbyn, dan anfantais yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol.

Yn ogystal â budd-daliadau di-waith, bydd y Credyd Cynhwysol yn disodli'r budd-daliadau mewn gwaith (e.e. Credyd Treth Gwaith), nad yw eu derbyn yn golygu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. O dan y Credyd Cynhwysol, ni wahaniaethir rhwng budd-daliadau di-waith ac mewn gwaith. Felly, wrth iddo gael ei gyflwyno, bydd mwy o hawlwr mewn gwaith ar incwm isel yn dod yn gymwys i gael y Credyd Cynhwysol, gan gynyddu nifer y teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Hyd yn hyn, mae nifer y teuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yng Nghymru yn gymharol fach. Gall amserlenyr Adran Gwaith a Phensiynau newid ond mae'r fersiwn ddiweddaraf yn dangos y bydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei ehangu'n raddol a pharhaus i ganolfannau gwaith ledled Cymru, gyda bwriad bod y gwaith o'i gyflwyno ar gyfer hawlwr yn cael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2018 yng Nghymru. Mae rhai teuluoedd sy'n derbyn y budd-daliadau y bydd yn eu disodli wedi cael eu symud i'r Credyd Cynhwysol yn barod (os yw eu hamgylchiadau wedi newid). Disgwylir i'r holl hawlwr presennol eraill gael eu symud i'r Credyd Cynhwysol rhwng 2019 a 2022.

¹ Y budd-daliadau etifeddol sy'n cael eu disodli gan y Credyd Cynhwysol yw Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith a Budd-dal Tai. Mae'r meini prawf cymhwysedd cyfredol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cynnwys Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm a Chredyd Treth Plant (ar yr amod nad oes ganddynt hawl i Gredyd Treth Gwaith ac nad yw eu hincwm blynyddol yn fwy na £16,190).

Erbyn y caiff y Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n llawn yn 2022, rydym yn amcangyfrif y byddai tua hanner yr holl ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (o gymharu ag 16 y cant ym mis Ionawr 2017). Byddai hyn yn costio swm sylweddol o arian. Pe baem yn ymrwmo i hynny, byddai'n rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau anodd iawn a byddai'n rhaid gwneud arbedion neu leihau cyllidebau yn rhywle arall.

Rwy'n ymwybodol bod yna alw am i'r hawl i gael prydau ysgol am ddim gael ei hymestyn i bob teulu sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol ond, mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad oes unrhyw arian ychwanegol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru i reoli effaith agenda Diwygio Lles Llywodraeth y DU ar brydau ysgol am ddim.

Felly, rydym yn cynnig cyflwyno trothwy incwm a enillir ym mis Ionawr 2019. Bydd hyn yn golygu na fydd gan y rhai sydd ag enillion net blynyddol o gyflogaeth neu hunangyflogaeth sy'n fwy na £7,400 (yn ogystal â'u taliad Credyd Cynhwysol) hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn gyffredinol, rydym yn amcangyfrif y byddai hyn yn arwain at gynnydd cymharol fach o ryw 3,000 yn nifer y plant sy'n elwa o brydau ysgol am ddim erbyn yr adeg y bydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno'n llawn yn 2022. Mae hyn o gymharu â sefyllfa lle mae'r Credyd Cynhwysol heb ei gyflwyno ac mae cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn aros yr un fath. Byddai mesurau ar waith hefyd i amddiffyn teuluoedd rhag colli hawl i brydau ysgol am ddim am gyfnod cyfyngedig, gan helpu i osgoi caledi trwy roi mwy o amser iddynt addasu.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn disgrifio'r hyn yr ydym yn cynnig ei wneud ac yn egluro'r rhesymau pam y credwn y dylem wneud hynny yn llawn.

Byddwn yn croesawu'ch sylwadau.

Kirsty Williams AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar gynigion i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer derbyn prydau ysgol am ddim. Mae angen i ni newid y meini prawf cymhwysedd cyfredol oherwydd y bydd y Credyd Cynhwysol yn disodli budd-daliadau a thaliadau cymorth eraill yn y pen draw sy'n gwneud y sawl sy'n eu derbyn yn gymwys i wneud cais am brydau ysgol am ddim.

Beth yw'r prif ystyriaethau?

Meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru

Mae prydau ysgol am ddim yn cael eu darparu i'r disgyblion mwyaf difreintiedig mewn teuluoedd ar incwm isel. Maent yn helpu i sicrhau bod gan blant cymwys fynediad i bryd maethlon, gyda'r nod o wella canlyniadau iechyd ac addysgol.

Yng Nghymru, rhoddir cinio ysgol am ddim i blant a phobl ifanc:

- os ydynt yn mynychu'r ysgol yn llawn amser; ac
- os yw eu teuluoedd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim; ac
- os oes cais wedi'i wneud gan, neu ar ran y rhiant neu'r disgybl, am brydau ysgol am ddim.

Cyn mis Medi 2013 roedd cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn seiliedig yn bennaf ar deuluoedd nad ydynt yn gweithio² yn derbyn rhai budd-daliadau di-waith seiliedig ar brawf modd:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes ganddynt hawl i Gredyd Treth Gwaith ac nad yw eu hincwm blynyddol yn fwy na £16,190
- Elfen warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Treth Gwaith 'dilynol' - y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos arall ar ôl iddynt beidio bod yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith

Gallai disgyblion sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm drostyn nhw eu hunain fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd.

Mae derbyn y budd-daliadau/taliadau cymorth uchod yn gweithredu fel pasbort i brydau ysgol am ddim, felly cyfeirir at y manteision hyn weithiau fel 'budd-daliadau pasbort'. Telir

² Ystyrir mai teuluoedd nad ydynt yn gweithio yw'r rhai nad ydynt yn bodloni'r gofynion yn ymwneud ag oriau a weithir sy'n eu galluogi i fod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith.

cost prydau ysgol am ddim o gyllidebau awdurdodau lleol ac mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol ac ysgolion annog pobl i fanteisio ar ginio ysgol am ddim.

Y Credyd Cynhwysol

Mae'r Credyd Cynhwysol yn fudd-dal seiliedig ar brawf modd i bobl o oedran gweithio sydd ar incwm isel. Bwriedir iddo fod yn symlach na'r system budd-daliadau a chredydau treth bresennol ac mae Llywodraeth y DU wedi'i gyflwyno i ddisodli chwe budd-dal ('budd-daliadau etifeddol'), fel rhan o'u hagenda Diwygio Lles:-

- Cymhorthdal Incwm,
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm,
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm,
- Budd-dal Tai,
- Credyd Treth Plant, a'r
- Credyd Treth Gwaith.

Mae'r budd-daliadau hyn yn gymysgedd o fudd-daliadau mewn gwaith (h.y. budd-daliadau a delir i unigolion i ychwanegu at eu henillion) a budd-daliadau di-waith (budd-daliadau a delir i'r rhai nad ydynt yn gweithio neu sy'n gweithio llai na'r oriau sydd eu hangen i fod â hawl i Gredyd Treth Gwaith, h.y. 16 awr yr wythnos i bobl sengl a 24 awr yr wythnos i gyplau).

Ar 6 Medi 2013, daeth Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013 ("Gorchymyn 2013") i rym ac ymestynnodd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer cinio ysgol a llaeth am ddim i gynnwys pob teulu sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol. Gwnaed hyn, gan ragweld y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn ehangach, fel mesur dros dro i amddiffyn plant hawlwr y Credyd Cynhwysol a fyddai wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan fudd-daliadau etifeddol, i sicrhau na fyddent dan anfantais oherwydd bod eu rhiant (rhieni) yn derbyn y Credyd Cynhwysol yn eu lle.

Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yng Nghymru

Hyd yn hyn mae nifer y teuluoedd yng Nghymru sy'n gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim oherwydd eu bod yn derbyn y Credyd Cynhwysol yn isel. Mae hyn oherwydd nad yw'r Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn i deuluoedd yng Nghymru hyd yma.

Mae'r Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno mewn camau ledled y DU. Yng Nghymru, mae'r Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno yng nghyswllt hawliadau newydd ar gyfer teuluoedd yn ardal Shotton yn Sir y Fflint ers mis Ionawr 2015 (gan mai Shotton oedd un o'r safleoedd peilot neu 'fraenaru' ar gyfer cyflwyno'r Credyd Cynhwysol). Ehangwyd hyn i Gyngor Sir y Fflint i gyd ym mis Ebrill 2017, ac wedi hynny i'r canlynol:

- Torfaen (Gorffennaf 2017)
- Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam (Hydref 2017)
- Abertawe (Rhagfyr 2017)
- Caerdydd (Chwefror 2018)
- Sir Ddinbych (Ebrill 2018)
- Pen-y-bont ar Ogwr, Conwy, Merthyr Tudful a Sir Fynwy (Mehfin 2018)
- Blaenau Gwent (Gorffennaf 2018)
- Caerffili a Sir Benfro (Medi 2018)
- Gwynedd (ardal y ganolfan gwaith a wasanaethir gan Ganolfan Byd Gwaith Machynlleth yn unig), Powys a Bro Morgannwg (Hydref 2018)
- Rhondda Cynon Taf (Tachwedd 2018)
- Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn (Rhagfyr 2018)

Disgwylir cwblhau'r gwaith o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yng Nghymru mewn perthynas â hawliadau newydd i deuluoedd ym mis Rhagfyr 2018. Ar ôl i'r broses ehangu gael ei chwblhau, bydd yr holl hawlwr sy'n weddill sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn dechrau cael eu symud i'r Credyd Cynhwysol o fis Gorffennaf 2019 ymlaen (mae'r rhai y mae eu hamgylchiadau'n newid yn cael eu symud i'r Credyd Cynhwysol cyn hynny). Rhagwelir ar hyn o bryd y caiff y gwaith cyflwyno ei gwblhau'n llawn erbyn 2022 pan fydd yr holl hawlwr budd-daliadau etifeddol presennol wedi symud i'r Credyd Cynhwysol ond gall yr amserlen newid).

Cinio ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd

Defnyddir cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd ar gyfer disgyblion. Fe'i defnyddir i helpu i benderfynu sut y caiff arian ei ddsbarthu ac at ddibenion ystadegol, er enghraifft:

- ffrydiau ariannu grantiau, fel Grant Datblygu Disgyblion Llywodraeth Cymru (PDG)³, y Grant Gwella Addysg ar gyfer ysgolion (EIG)⁴, a fformiwla ariannu'r Setliad Llywodraeth Leol⁵.
- monitro'r cynnydd a wneir i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sydd o gefndiroedd mwy difreintiedig a'r rhai nad ydynt o gefndiroedd o'r fath.

³Grant Datblygu Disgyblion: <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/pdg-and-early-years-pdg/?lang=cy>

⁴ Grant Gwella Addysg: <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/education-improvement-grant-for-schools/?lang=cy>

⁵ Setliad Llywodraeth Leol: <http://llyw.cymru/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/?lang=cy>

Pam mae angen i ni ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim?

Ar hyn o bryd mae pob teulu sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yn gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim ar gyfer eu plant, gan gynnwys y rhai a fyddai wedi bod yn anghymwys o'r blaen o dan y system fudd-daliadau etifeddol, h.y. rhieni sengl sy'n gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos, neu gyplau sy'n gweithio 24 awr neu fwy yr wythnos (gydag un aelod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos).

Pan fydd y Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn yng Nghymru (gall hwn newid, ond yn 2022 ar hyn o bryd, yn ôl amserlen ddiweddaraf yr Adran Gwaith a Phensiynau https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/693928/universal-credit-transition-rollout-schedule.pdf), os bydd pob teulu sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, byddai hyn yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Gan nad oes gwahaniaeth rhwng budd-daliadau di-waith ac mewn gwaith dan y Credyd Cynhwysol a bod pob un sy'n hawlio sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, byddai llawer o hawlwr mewn gwaith ychwanegol ar incwm isel yn dod yn gymwys.

Nid yw hyn yn broblem ar hyn o bryd gan nad yw'r Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n eang iawn i deuluoedd yng Nghymru hyd yma. Fodd bynnag, bydd hyn yn newid wrth i'r gwaith o'i gyflwyno fynd rhagddo. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y byddai tua hanner yr holl ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim erbyn i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn (o gymharu â 16 y cant ym mis Ionawr 2017), na fyddai'n fforddiadwy.

Ar hyn o bryd awdurdodau lleol sy'n talu cost prydau ysgol am ddim. Nid oes unrhyw arian ychwanegol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru reoli effaith agenda Diwygio Lles Llywodraeth y DU ar brydau ysgol am ddim. Byddai cynnydd ym maint y llwyth achosion prydau ysgol am ddim yn golygu y byddai'n rhaid i arbedion gael eu gwneud mewn manau eraill a gostyngiadau i gyllidebau eraill Llywodraeth Cymru, er mwyn ariannu cost ychwanegol darparu prydau ysgol am ddim i awdurdodau lleol.

Defnyddir cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd i helpu i benderfynu sut y caiff arian ei ddosbarthu ar gyfer rhai ffrydiau ariannu, megis Grant

Datblygu Disgyblion Llywodraeth Cymru (PDG)⁶, y Grant Gwella Addysg ar gyfer ysgolion (EIG)⁷ yn ogystal â fformiwla ariannu'r Setliad Llywodraeth Leol⁸. Gallai newidiadau i nifer y disgyblion fyddai'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim effeithio ar gyfanswm yr arian a sut y caiff ei ddsbarthu.

⁶ Grant Datblygu Disgyblion: <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/pdg-and-early-years-pdg/?lang=cy>

⁷ Grant Gwella Addysg: <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/education-improvement-grant-for-schools/?lang=cy>

⁸ Setliad Llywodraeth Leol: <http://llyw.cymru/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/?lang=cy>

Ein cynigion

Cyflwyno trothwy incwm blynyddol net a enillir o £7,400

Mae gofyn taro cydbwysedd er mwyn sicrhau bod y rhai mwyaf anghenus yn gallu cael prydau ysgol am ddim, ac ar yr un pryd, sicrhau bod ein cynigion yn fforddiadwy. Mae angen i ni osgoi beichiau ariannol newydd i awdurdodau lleol (ariannu prydau ysgol am ddim ychwanegol) a Llywodraeth Cymru. Felly, rydym yn cynnig diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim trwy gyflwyno trothwy incwm net a enillir⁹ ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol. Rydym yn cynnig bod teuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol ac sydd ag incwm net blynyddol a enillir o fwy na £7,400 yn gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim ar gyfer eu plant, oni bai eu bod yn cael eu hamddiffyn wrth bontio (gweler tudalen 13). Byddai'r trothwy incwm a enillir yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2019.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r trothwy enillion net yn cynrychioli cyfanswm incwm aelwyd. Er enghraifft, yn dibynnu ar yr union amgylchiadau, byddai gan deulu nodweddiadol sy'n ennill oddeutu £7,400 y flwyddyn gyfanswm incwm cartref o rhwng £18,000 a £24,000 y flwyddyn unwaith y bydd budd-daliadau'n cael eu hystyried¹⁰.

Rydym yn amcangyfrif y byddai trothwy incwm blynyddol net a enillir o £7,400 ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yn cynyddu nifer y disgyblion sy'n elwa o brydau ysgol am ddim yng Nghymru ryw 3,000 erbyn yr adeg y bydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno'n llawn yn 2022 (o gymharu â sefyllfa lle nad yw'r Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno a chymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim yn aros yr un fath)¹¹. Fel cyferbyniad â hyn, os nad oes trothwy enillion ar waith erbyn yr amser y caiff y Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n llawn, rydym yn amcangyfrif y byddai tua hanner yr holl ddisgyblion

⁹ Diffinir incwm net a enillir fel incwm aelwyd ar ôl trethi a didyniadau. Nid yw yn cynnwys incwm o'r Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill. Byddai incwm net o enillion gweithiwr cyflogedig ac enillion hunangyflogaeth datganedig yn cael eu hystyried.

¹⁰ Ffynhonnell: DfE (2017) Eligibility for free school meals and the early years pupil premium under Universal Credit <https://www.gov.uk/government/consultations/eligibility-for-free-school-meals-and-the-early-years-pupil-premium-under-universal-credit>

¹¹ Wrth gynnal ein dadansoddiad, rydym wedi defnyddio nifer o wahanol ffynonellau data (e.e. Arolwg o Adnoddau Teulu) a rhagolygon economaidd (e.e. rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf enillion a chyfraddau cyflogaeth). Gall ein hamcangyfrifon newid wrth i ddata newydd gael ei ryddhau ac i ragolygon gael eu diweddarau. Mae rhagor o wybodaeth am y ffynonellau data a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i'w gweld yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft sydd wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (o gymharu ag 16 y cant ym mis Ionawr 2017), na fyddai'n fforddiadwy.

O dan y trothwy arfaethedig o £7,400 ar gyfer incwm blynyddol net a enillir, rydym yn disgwyl na fydd mwyafrif sylweddol y plant yn gweld unrhyw newid yn eu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae symud i drothwy incwm a enillir yn golygu na fydd rhai teuluoedd sy'n gymwys o dan y meini prawf presennol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim pan gyflwynir y trothwy, oni bai eu bod yn cael eu hamddiffyn wrth bontio (gweler tudalen 13). Hefyd, bydd rhai teuluoedd nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan y meini prawf blaenorol yn ennill yr hawl o dan y meini prawf newydd.

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith ei bod yn anodd iawn rhagweld yn gywir effaith wirioneddol unrhyw drothwy enillion a roddir ar faint y cohort prydau ysgol am ddim. Rydym yn targedu'r grŵp o aelwydydd y mae'r diwygiadau lles a chyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW) yn effeithio arnynt fwyaf. Mae llawer o ansicrwydd ynghylch effeithiau ymddygiadol¹² (e.e. dewisiadau marchnad lafur) a allai godi o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol a'r trothwy prydau ysgol am ddim ei hun hefyd, yn ogystal â dylanwad amgylchiadau economaidd ehangach.

Unwaith y bydd trothwy o £7,400 ar gyfer incwm net a enillir yn ei le, ein bwriad yw ei gadw'n gyson tan ddiwedd y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, er mwyn darparu rhywfaint o sefydlogrwydd yn y meini prawf cymhwysedd. Ar yr adeg honno, byddwn yn gwybod mwy am rai o'r ffactorau anhysbys rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd o ran y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, yn enwedig effeithiau ymddygiadol o gyflwyno trothwy. Fodd bynnag, yn ystod y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, a thu hwnt, **bydd angen i ni adolygu'r trothwy o £7,400 yn gyson**, trwy fonitro a yw nifer y disgyblion cymwys yn wahanol iawn i'r hyn a ragwelwyd gennym. Os oes amrywiad sylweddol i'n hamcanestyniadau, efallai y bydd angen i'r trothwy newid yn y dyfodol.

Enghraifft 1: Mae mam Sarah'n rhiant sengl 24 oed, sy'n ennill yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ac yn gweithio 16 awr yr wythnos, felly mae hi'n derbyn Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant. Gan ei bod yn derbyn credyd Treth Gwaith, ni all hawlio prydau ysgol am ddim i Sarah.

¹² Nid yw ein dadansoddiad yn cynnwys effaith unrhyw ymatebion ymddygiadol a all ddigwydd oherwydd newidiadau polisi. Bydd ymatebion o'r fath yn dylanwadu ar faint y cohort prydau ysgol am ddim.

Ym mis Mawrth 2019, mae hi'n symud tŷ ac oherwydd y newid hwn mewn amgylchiadau mae hi'n cael ei symud i'r Credyd Cynhwysol. Bryd hynny mae'n dod yn gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim i Sarah oherwydd ei bod yn ennill llai na £7,400 y flwyddyn. Caiff enillion mam Sarah eu hategu gan y Credyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill, felly cyfanswm incwm ei chartref yw £18,200 y flwyddyn.

Enghraifft 2: Mae rhieni Hefin a Mali'n ennill y Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae eu mam yn gweithio 7 awr yr wythnos a'u tad yn gweithio 8 awr yr wythnos, felly nid ydynt yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith, mae eu henillion yn £6,179 y flwyddyn. Fodd bynnag, maent yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Plant a, gan fod eu henillion ar y cyd yn llai na £16,190 y flwyddyn, mae Hefin a Mali'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan y system budd-daliadau etifeddol.

Pan fyddant yn trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol, bydd Hefin a Mali yn dal i fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim gan fod enillion eu rhieni gyda'i yn llai na £7,400 y flwyddyn. Mae gan rieni Hefin a Mali gyfanswm incwm cartref o ryw £23,900 y flwyddyn wrth ystyried eu holl fudd-daliadau.

Amddiffyniad trosiannol i deuluoedd y mae'r newid yn effeithio arnynt

Mae amddiffyniad trosiannol yn cyfeirio at fesurau sy'n sicrhau bod rhai pobl yn cael eu hamddiffyn rhag effeithiau newid polisi am gyfnod cyfyngedig wrth symud i drefniadau newydd, ac nid mesurau sydd yn y tymor hir yn golygu newid o ran cymhwysedd mewn ffordd sy'n wahanol i'r hyn a fwriadwyd.

Mae symud o feini prawf cymhwysedd yn seiliedig ar oriau a weithir i feini prawf yn seiliedig ar enillion yn golygu y bydd rhai teuluoedd yn colli hawl (yn bennaf y rhai sy'n derbyn Credyd Treth Plant ac yn ennill mwy na'r lefel trothwy enillion pan fyddant yn symud i'r Credyd Cynhwysol). Fodd bynnag, caiff y rhain eu disodli gan deuluoedd sy'n ennill hawl i brydau ysgol am ddim (yn bennaf y rhai sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith sy'n gweithio gormod o oriau i fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond sy'n ennill cyflog isel).

Rydym yn bwriadu cyflwyno amddiffyniad trosiannol a fydd yn sicrhau bod y newid i feini prawf cymhwysedd prydau ysgol am ddim yn amharu cyn lleied â phosib ar bobl. Bydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim pan fydd y meini prawf yn cael eu newid ar 1 Ionawr 2019, neu unrhyw hawlwr newydd sy'n ennill yr hawl i gael prydau ysgol

am ddim yn ystod y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol (tan 2022), yn cael eu hamddiffyn rhag colli prydau ysgol am ddim tra bydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled Cymru, hyd yn oed os yw eu cymhwysedd yn newid. O 1 Ionawr 2019 ymlaen felly, byddai'r amddiffyniad hwn yn cwmpasu:

- teuluoedd y mae eu plant eisoes wedi eu cofrestru fel rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd bod y teulu'n derbyn y Credyd Cynhwysol, sydd ag enillion sy'n uwch na'r trothwy newydd ar hyn o bryd
- teuluoedd y mae eu plant eisoes wedi eu cofrestru fel rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd bod y teulu'n derbyn y Credyd Cynhwysol, ond mae eu henillion yn codi uwchlaw'r trothwy newydd yn ystod y cyfnod cyflwyno
- teuluoedd y mae eu plant wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd bod y teulu'n derbyn budd-daliadau etifeddol, lle mae'r teulu'n trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod cyflwyno, sydd ag enillion sy'n uwch na'r trothwy newydd
- teuluoedd y mae eu plant eisoes wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd bod y teulu yn derbyn budd-daliadau etifeddol, ac ar ôl hynny mae eu hamgylchiadau'n newid sy'n golygu eu bod yn cael eu tynnu allan o'r system fudd-daliadau yn gyfan gwbl, ac nad ydynt yn cael eu trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol
- teuluoedd nad ydynt yn y system fudd-daliadau, ond sy'n dod yn hawlwr y Credyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod cyflwyno, ac y mae eu plant yn cael eu cofrestru fel rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd bod y teulu islaw'r trothwy newydd, hyd yn oed os yw eu henillion yn codi uwchlaw'r trothwy newydd wedyn yn ystod y cyfnod cyflwyno.

Unwaith y bydd y Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn (2022 yw hyn ar hyn o bryd yn ôl amserlen diweddaraf yr Adran Gwaith a Phensiynau, ond gall hwn newid), bydd unrhyw hawlwr presennol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach (oherwydd eu bod yn ennill dros y trothwy) yn parhau i gael eu hamddiffyn. Bydd hyn yn parhau hyd ddiwedd eu cyfnod presennol o addysg (e.e. cynradd, uwchradd).

Enghraifft 3: Ar 1 Ionawr 2019 mae Max, sydd ym Mlwyddyn 7, wedi'i gofrestru fel plentyn sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim am fod ei deulu'n derbyn y Credyd Cynhwysol. Mae incwm net a enillir ei deulu'n uwch na'r trothwy o £7,400. Fodd bynnag, bydd yn parhau i dderbyn prydau ysgol am ddim tan fis Mawrth 2022 (pryd y disgwylir i'r broses o

gyflwyno'r Credyd Cynhwysol gael ei chwblhau), ac erbyn hynny bydd yn ym Mlwyddyn 10. Yna bydd yn parhau i gael ei amddiffyn er mwyn cael prydau ysgol am ddim tan ddiwedd Blwyddyn 13 (Gorffennaf 2025).

Enghraifft 4: Ar 1 Chwefror 2019, daeth Nia, sydd ym Mlwyddyn 6, yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, pan ddaeth ei thad (sy'n unig riant) yn ddi-waith a hawlio'r Credyd Cynhwysol. Gwnaeth tad Nia gais am brydau ysgol am ddim iddi. Ym mis Medi 2019, dechreuodd tad Nia swydd newydd (yn ennill £ 32,000 y flwyddyn). Mae Nia'n dal i dderbyn prydau ysgol am ddim y tu hwnt i gyfnod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn 2022, pan fydd hi ym Mlwyddyn 9. Ar ôl hynny bydd yn parhau i gael ei hamddiffyn tan ddiwedd ei chyfnod ysgol ym mis Gorffennaf 2026 pan fydd hi ym Mlwyddyn 13.

Cymorth ariannol i reoli effaith y trothwy ac amddiffyniad trosiannol

Ar hyn o bryd, awdurdodau lleol sy'n talu cost prydau ysgol am ddim, gan gynnwys trwy arian a ddarperir trwy'r Setliad Llywodraeth Leol. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried cymorth ariannol i dalu am effaith y trothwy £7,400 a'r cynnig amddiffyniad trosiannol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i reoli dosbarthiad y cymorth ariannol hwn, yn arbennig drwy'r Is-grŵp Dosbarthu¹³ sy'n cynghori ar fformiwla'r Setliad Llywodraeth Leol.

Rheoli'r effaith ar ddangosyddion amddifadedd

Rydym yn mesur cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac yn ei ddefnyddio i'n helpu i fonitro'r cynnydd a wneir i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sydd o gefndiroedd mwy difreintiedig a'r rhai nad ydynt o gefndiroedd o'r fath. Bydd newidiadau yn y niferoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn effeithio ar ein gallu i fonitro'r cynnydd a wneir i gau'r bwlch cyrhaeddiad. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gyhoeddi data ar gyrhaeddiad disgyblion difreintiedig, ond yn cydnabod y bydd angen i ni ystyried y cynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wrth i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno hefyd.

Effaith ar gydraddoldeb

Mae'n ofynnol bod gan Lywodraeth Cymru drefniadau i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig: oedran, anabledd, ailbennu

¹³ Is-grŵp Dosbarthu: <http://llyw.cymru/topics/localgovernment/finandfunding/dsg1/?lang=cy>

rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u hystyried fel rhan o'r broses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Mae'r cynigion yn ceisio sicrhau bod pryddau ysgol am ddim ar gael i'r teuluoedd mwyaf anghenus, o'r adnoddau sydd ar gael. Cyhoeddir asesiad drafft o'r effaith ar gydraddoldeb gyda'r ddogfen ymgynghori hon, a chaiff ei ddiweddarau yn dilyn yr ymateb i'r ymgynghoriad.